Ysgol David Hughes

Bwletin Disgyblion

Pupils Bulletin

GWOBR GOFFA DAFYDD WHITTALL/ DAFYDD WHITTALL MEMORIAL PRIZE

Llongyfarchiadau i **Steffan Bryn Jones 12M** a dderbyniodd Gwobr Goffa Dafydd Whittall eleni. Dyma'r ail flwyddyn i'r wobr arbennig hon gael ei chyflwyno fel cydnabyddiaeth o gyfraniad disgybl i fywyd yr ysgol. Dymuniad staff yr ysgol oedd bod gwobr yn cael ei chyflwyno er cof am Dafydd Whittall a fu'n Bennaeth ar yr ysgol o 1985 hyd 1995.

Mae Steffan ynghyd â grŵp gweithgar o fyfyrwyr Blwyddyn 12 wedi bwrw iddi yn ddiflino i hyrwyddo a chynnal statws y Gymraeg yn yr ysgol. Dangosodd ymroddiad a blaengaredd wrth arwain ac ysbrydoli disgyblion iau, cynrychiolodd yr ysgol yn ddeheuig mewn cystadlaethau a chyfarfodydd a mynnodd fod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i pharchu ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Yn bendant mae Steffan yn rhannu gweledigaeth y diweddar Dafydd Whittall yn hyn o beth ac yn llwyr deilyngu'r wobr eleni. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Steffan Bryn Jones 12M & Mrs Bethan Whittall

Congratulations to **Steffan Bryn Jones 12M** who received the Dafydd Whittall Memorial Prize this year. This is the second year for this special prize to be presented in recognition of the contribution of a pupil to school life. It was the wish of the school staff that a prize was presented in memory of Dafydd Whittall who was Headteacher at the school from 1985 to 1995.

Steffan together with an active Year 12 group of students has worked relentlessly to promote and maintain the status of Welsh in the school. He shows a dedication and initiative in leading and inspiring the younger pupils, he represented the school skilfully in competitions and meetings and insisted that the Welsh was seen and respected in all aspects of school life. Stephan certainly shares the vision of the late Dafydd Whittall in this regard and fully deserves the award this year. Many congratulations Steffan.

ATHLETAU/ATHLETICS

Yn ddiweddar yn Stadiwm Queensway yn Wrecsam fe gystadlodd y pedwar disgybl isod ym Mhencampwriaeth Trac a Maes Gogledd Cymru. Fe ddychwelyd gyda **8 medal aur, 1 arian a 3 chofnod pencampwriaeth newydd**.

Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar.

Dan/Under 15 G 1500m
Cyntaf/First Mollie Davies 9F
(record newydd/new record)
Dan/Under 17 M Hammer
Cyntaf/First Shaun Livett 10M
Dan/Under 17 M Discus
Cyntaf/First Shaun Livett 10M
Dan/Under 17 M Shot Putt
Cyntaf/First Connor Laverty 11R
(record newydd/new record)
Ail/Second Shaun Livett 10M
Dan/Under 17 M Pole Vault
Cyntaf/First Connor Laverty 11R
Dan/Under 17 M 100m
Cyntaf/First Connor Laverty 11R
Dan/Under 20 W 3000m
Cyntaf/First Sarah Livett 13N
(record newydd/new record)
Dan/Under 20 W 1500m
Cyntaf/First Sarah Livett 13N

Recently at the Queensway Stadium in Wrexham the above four pupils competed in the North Wales Track and Field Championships. Between them they returned with **8 gold medals, 1 silver and 3 new championship records**.

Congratulations to all four.

FFLAM OLYMPAIDD/OLYMPIC FLAME

Llongyfarchiadau mawr i **Connor Laverty 11R, Sacha Jones 13N a Lucy Beesley 13M** ar gael eu dewis i gludo'r Torch Olympaidd ar Daith Gyfnewid y Fflam oherwydd ei hysbrydoliaeth i eraill. Cludodd Connor y Fflam drwy Borthaethwy, Sacha drwy Gaernarfon a Lucy drwy Gonwy.

Fe wahoddwyd **Gemma Hughes 9R** a **Shannon Owen 9N** i gynrychioli Project Phoenix yn y Faenol. Bu Gemma yn ddigon lwcus i gyfarfod a siarad gyda Bryn Terfel a chafodd ei chyfweld ar gyfer Newyddion Radio Cymru.

Yn sicr dyma brofiad byth gofiadwy i'r pump.

Connor Laverty 11R

Congratulations to **Connor Laverty 11R, Sacha Jones 13N and Lucy Beesley 13M** on being chosen as Torch Bearers of the Olympic Torch Relay because of their inspiration to others. Connor carried the flame through Menai Bridge, Sacha through Caernarfon and Lucy carried the flame through Conwy.

Gemma Hughes 9R and **Shannon Owen 9N** were invited to represent Project Phoenix at Faenol. Gemma was lucky to meet and talk to Bryn Terfel and she was also interviewed for the Radio Cymru News.

An unforgettable experience for all five.

Sacha Jones 13N

Gemma Hughes 9 R & Shannon Owen 9N